24. Ac ual yd oed góylua y Sulgóyn yn dyuot, góedy 20 y veint uudugolyaetheu hynny o bop Ile, y gyt a diruaðr leóenyd ef a vedylyóys dala Ilys yn ynys Prydein, a góisgað y goron am y ben, a góahaúð attað y brenhined ar tyóyssogyon a oedynt wyr idað o bop Ile a orescynnyssei, órth enrydedu góylua y Sulgóyn yn vrenhinaðl 25 enrydedus, ac y atneóydu kadarnaf tagnefed y rydunt. A góedy menegi ohonað y vedól y gyghorwyr ae anóylyt, ef a gauas yn y gyghor dala y lys yg Kaer Lion ar Wysc. Kanys or dinassoed kyvoethockaf oed ac adassaf yr ueint wylua honno. Sef achaðs oed. Or neill 30 parth yr dinas y redei yr auon uonhedic honno Wysc. Ac ar hyt honno y doynt y brenhined, a delhynt dros y moroed, yn y Ilogeu hyt y dinas. Ac or parth arall góeirglodyeu a foresti yn y theckau. Ac y gyt a hynny adeiladeu a Ilyssaed brenhinaðl a oedynt yndi oe myón,

a thei eureit, megys nat oed yn y teyrnassoed tref a gynhebyckyf y Rufein o ryodres namyn hi. Ac y gyt a hynny arderchaó oed o dóy eglóys arbenhic; vn o honunt yn ardyrchafedic yn enryded y Vyl, verthyr, a chófeint o werydon yn talu molyant y Duó yndi yn 5 wastat dyd a nos yn enrydedus urdasseid; arall a oed yn enryded y Aaron kedymdeith y merthyr hónnó, a chófent yn honno a ganónwyr reolaódyr. Ac y gyt a hynny y dryded archescobaót a phenaf yn ynys Prydein oed. Ac y gyt a hynny arderchaó oed o deu cant yscol 10 o athraóon a doethon, a ed[ne]bydynt kerdetyaf y syr ac amryfaelon gelfydodeu ereill. Kanys yn yr amser hónnó y keffit yndi y seith gelfydyt; a[r] rei hynny dróy gerdetyaf y syr a venegynt y Arthur llaber or damweineu a delhynt rac llab. Or achóysson [hynny] oll y mynnóys 15 Arthur yno dala llys. Ac odyndy gellóg kenadeu dróy amryfaelon teyrnassoed a góahaó paó a orucróyt o deyrnassoed Ffreinc ac o amryfaelon ynysseid yr eigaón, o[r] a dylyynt dyuot yr llys.

25. Ac órth y wys honno y deuthant yno : Araón uab 20 Kynuarch brenhin Yscotlont, Vryen y vraót brenhin Reget, Katóallaón llab[h]ir brenhin Góyned, Kadór llemenic tywyssaó Kernyó. Tri archescob ynys Prydein : archescob Lundein, ac archescob Kaer Efraó, a Dyfric archescop Kaer Lion ar Wysc; a phenaf 25 onadunt oed dan bab Rufein, ac y gyt a hynny eglur oed oe wassanaeth ae uuched; kanys pob kyfryó glefyt or a uei ar dyn, ef ae góaretei dróy y wedi. Ac y gyt a hynny óynt a deuthant y tyóyssogyon or dinassoed bonhedic, nyt amgen, Morud iarll Kaer Loyó, Meuruc 30 o Gaer Wyragon, Anaraót o Amóythic, Kynuarch iarll Kaer Geint, Arthal o Warwic, Owein o Gaer Leon, Ionathal o Gaer Idor, Cursalem o Gaer Lyr, Góallaó ap Leenaó o Salsbri, Boso o Ryt Ychen. Ac odieithyr

hynny llaber o wyrda, nyt oed lei eu boned nac eu
 teilygdaŵt nŵr rei hynny, nyt amgen, Dunaŵt Vŵr uab
 Pabo post Prydein, Keneu uab Coel, Peredur uab
 Elidyr, Grufud uab Vogoet, Rein uab Elaŵt, Edelin
 5 vab Keledaŵc, Kyngar uab Bangaŵ, Kynnar Gorbanyon,
 Miscoet Cloffaŵc, Run uab Nŵythŵn, Kynuelyn [uab]
 Trunyaŵ, Kadell uab Vryen, Kyndelic uab Nŵythŵn.
 Ac y gyt a hynny llaber o wyrda a oed ryhir eu henŵi.
 Ac y gyt a hynny or ynyssed yn eu kylch: Gillamŵri
 10 brenhin Iwerdon, Melwas brenhin Islont, Doldan brenhin
 Gotlont Gŵynw brenhin Orc, Leu uab Kynuarch
 brenhin Lychlyn, Echel brenhin Denmarc. Ac o
 Ffreinc y deuthant: Hodlyn tywyssaŵc Ruthyn,
 Leodgar iarll Bŵlŵyn, Bedŵyr ^{chriŵt} ^{gellŵn} ^{chriŵt} ^{gellŵn} ^{chriŵt} ^{gellŵn} ^{chriŵt} ^{gellŵn} ^{chriŵt} ^{gellŵn}
 15 Borel o Cenomaŵs, Kei pensŵydŵr duc yr Angiŵ, Gŵittart
 o Beittaŵ, ar deudec gogyfarch o Freinc, a Gerein
 Garannŵys oc eu blaen yn dywyssaŵc arnadunt, Howel
 uab Emyr Lydaŵ brenhin Brytaen Vechan, a llaber o
 20 wyrda a oed darestygedic idaŵ y gyt ar ueint darmerth a
 chyniret mulyoed a meiryŵch, megys yd oed dyrys eu
 datkanu a ryhir eu hyscriuenu. Ac odieithyr hynny
 ny thrigywys un tywyssaŵc y tu hŵn yr Yспаen ny delei
 30 Ƶrth y wys honno. Py ryfed oed hynny? Haelder
 Arthur ae glot ae volyant yn ehedec dros y byt a
 25 dynassei baŵp yn rŵ[y]medic oe garyat.

26. Ac or diwed gŵedy ymgynullaŵ paŵb yr gaer ar
 Ƶylua yn dyuot, yr archescyb a elwit yr llys Ƶrth wiscaŵ
 y goron am ben y brenhin. Ac odyna Dyfric archescob
 a gant yr offeren. Kanys yn y archescobty yd oedit
 30 yn dala llys. Ac or diwed gŵedy gŵisgaŵ y vrenhinaŵl
 wisc am y brenhin a theckau y ben o goron y teyrnas ae
 deheu or deyrnwialen, ef a ducpŵyt yr eglŵys benaf, ac
 or tu deheu ac or tu asseu idaŵ y deu archescob yny
 gynhal. Ac y gyt a hynny petŵar brenhin, nyt amgen,

brenhin yr Alban, a brenhin Dyuet, a brenhin Góyned, a brenhin Kernyó, ^{acc. conf. 10} yn heróyd eu breint ac eu dylyet, ^{St. 11} yn aróein petóar cledyf eureit noethon yn y vlaen. Ac y gyt a hynny lláber o gófenoed amryfaelon vrdassoed yn eu processio o pop parth yn ol ac ym blaen yn kanu 5 amryfaelon gyóydolaetheu ac organ. Ac or parth arall yd oed y vrenhines yn y brenhinwisc, ac escyb o bop parth¹ yn y dóyn hitheu y eglóys y mynachesseu,² a phedeir góraged y petwar brenhin, a dywedassam ni uchot, yn aróein pedeir clomen³ purwen⁴ yn y blaen yn 10 heróyd eu breint óynteu, ar góraged yn enrydedus gan diruaór leóenyd yn kerdet yn y hol.⁵ Ac or díbed gógedy daruot y processio⁶ ym pob vn or dóy eglóys, kyndecket a chyndigrifet y kenit y kywydolaetheu⁷ ar organ ac na óydynt y marchogyon py le gyntaf y 15 kyrchynt;⁸ namyn yn torfoed pob eilwers y kerdynt y honn yr aór hon ac yr llall gógedy hynny. A phei treulit y dyd yn góbból yn dóywaól wassanaeth, ny magei dim blinder y neb. Ac or díbed gógedy daruot yr offereneu ym pob vn or dóy eglóys, y brenhin ar 20 vrenhines a diólassant eu brenhinwisgoed y amdanunt.⁹

27. Ac odynd y brenhin a aeth yr neuad ar góyr oll y gyt ac ef. Ar vrenhines ar góraged oll y gyt a hi¹ y neuad y vrenhines, gan gadó hen gynefaót Tro, pan enrydedynt y góyluaeu maór, y góyr y gyt ar góyr yn 25 bóyta, ar góraged y gyt ar góraged yn wahanedic. A gógedy kyflehau² paób y³ eisted yn heróyd y deissyfei y deilygtaót, Kei bennsóydór yn wiskedic o ermynwisc, a mil⁴ y gyt ac ef o vn ryó adurn a hynny⁵ o veibon dylyedogyon, a gychwynassant y wassanaethu or gegin 30 anregyon. Ac or parth arall Bedwyr a mil o veibon

(Ch. 26). 1 idi *add.*, 2 machesseu, 3 colomen, 4 gvynyon, 5 yn ol, 6 proessivn, 7 kywydolyaetheu, 8 a gerdynt, 9 y amdanadunt

¹Ch. 27). 1 hitheu, 2 kyfyavnheu (?) 3 yn, 4 mil o wyr, 5 ac ynteu

gŷyrda y gyt ac ynteu yn wisgedic o amryuaelon wiscoed yn gŷassanaethu gŷirodeu or vedgell. Ac or parth arall yn llys y vrenhines aneirf o amylder gŷassanaethwyr yn wisgedic o amryfaelon wisgoed yn herŷyd eu defaŷt
 5 yn talu eu gŷassanaeth yn diwall. Ar petheu hynny ae ryotres pei ascrifenŷn, gormod o hyt a blinder a ŷnaŷn yr ystorya. Kanys ar y veint teilygdaŷt honno yd oed⁶ ynys Prydein megys y racvlaenei yr holl ynysed o amylder eur ac aryant ac alafoed dayraŷl.⁷ A phy
 10 varchaŷc bynhac a vynnei⁸ vot yn glotuaŷr yn llys Arthur, o vn ryŷ wisic yd aruerynt,⁹ ac o vn ryŷ arueu, ac o un ryŷ dyŷygyat¹⁰ marchogaeth. Y gorderchwraged o vn lliŷ wisgoed ac o un dyŷygyat¹⁰ yd aruerynt. Ac ny bydei teilŷg gan un wreic garu¹¹ vn gŷr, ony bei y uot
 15 yn brofedic teirgŷeith y milŷryaeth. Ac uelly diŷeirach y gŷneynt¹² y gŷraged a gŷell, ar gŷyr yn glotuorussach oc eu karyat.

28. Ac or diŷed gŷedy daruot bŷyta a chy[ch]wynnu y ar y byrdeu, allan odieithyr y dinas yd aethant y
 20 chŷare¹ amryfaylon chwaryeu.² Ac yn y lle marchogyon yn dangos arŷydon, megys kyt bydynt³ yn ymlad yn iaŷn ar y maes. Ar gŷraged y ar y muroed ar bylcheu yn edrych ar chware.⁴ Ereill yn bŷrŷ mein, ereill yn saethu, ereill yn rydec,⁵ ereill yn gŷare gŷydbŷ[y]ll, ereill
 25 yn gŷare taplas. Ac uelly⁶ drŷy bop⁷ kyfryŷ amryuaelon dychymygeu⁸ gŷaryeu⁹ treulaŷ yr hyn a oed yn ol or dyd gan diruaŷr leŷenyd, heb lit a heb gyffro¹⁰ a heb gynhen. A phŷy bynhac a vei vudugaŷl yn y gŷare, Arthur drŷy amlaf rodyon ae henrydedei.¹¹ A gŷedy treulaŷ y tri
 30 dieu kyntaf uelly,¹² y petwryd dyd galŷ paŷp a wnaeth-

(Ch. 27.) 6 yr dothoed, 7 aualoed daeravl, 8 vynhei, 9 aruerhynt, 10 diwygyat, 11 karu, 12 ymwneynt

(Ch. 28.) 1 wareu, 2 waryeu, 3 beynt, 4 ar y gvareu, 5 redec, 6 y velly, 7 pop, 8 dychymygyon, 9 a gvaryeu, 10 a heb gyffro *om.*, 11 henrydedhei, 12 y velly

pŷt or a oedynt yg gŷassanaeth, a thalu¹³ y baŷp y wassanaeth ae lafur herŷyd ual¹⁴ y dyllynt. Ac yna y rodent¹⁵ y dinassoed, ar kestyl, ar tir, ar dayar, ar escobaetheu,¹⁶ ar archescobaetheu,¹⁷ ar manachlogoed, ar amryuaelon urdasseu, megys y gŷedei y baŷp or ae 5 dyllyei.¹⁸

29. Ac yna y gŷrthodes Dyfric archescob y archescobaŷt ae teilygdaŷt. Kanys gŷeŷl oed gantaŷ bot yn didrifŷr a buchedu yn y didryf no bot yn archescob. Ac yn y le ynteu y gossodet Dewi¹ eŷythyŷ y[r]² brenhin yn 10 archescob yg Kaer Lion ar Wysc.³ Buched hŷnnŷ oed agreiff⁴ dayoni⁵ y baŷp or a gymerassei y dysc ynteu. Ac yn⁶ Ie Samsŷn⁷ archescob Lydaŷ drŷy anoc Howel⁸ uab Emyr Lydaŷ y gossodet Teilaŷ escob⁹ Lan Daf, yr hŷn a glotuorei y uuched, ae deuodeu da a dangossynt 15 y uot yn ŷrda. Ac odyndeu escobaŷt Gaer¹⁰ Vudei y Veugant, ac escobaŷt Gaer¹⁰ Wynt y Dywan,¹¹ ac escobaŷt Lincol y Aldelmi.

30. Ac val yd oedynt velly yn llunyaethu pob peth, nachaf deudegwyr aeduet eu hoet, enrydedus y gŷed, 20 a cheig [o] olyfwyd¹ yn llaŷ bop vn onadunt yn arŷyd eu bot yn genadeu, ac yn kerdet yn araf, ac yn kyfarch gŷeŷl y Arthur, ac yn y annerch y gan Les amheraŷdyŷ Rufein, ac yn rodi llythyŷ yn y laŷ, ar ymadraŷd hŷnn² yndaŷ. 25

31. "Les amheraŷdyŷ Rufein yn anuon y Arthur yŷ hynn a haedŷys. Gan enryfedu¹ yn uaŷr enryfed yŷ genyf i dy greulonder di athrudannaeth.² Enryfedu³

(Ch. 28). 13 thallu, 14 *om.*, 15 rodet *recte*, 16 escobyatheu, 17 ar archescobaetheu *om.*, 18 y paŷb ac y dyllyei

(Ch. 29). 1 *in marg.*, 2 yr, 3 arvyse *om.*, 4 agriff, 5 a dayoni, 6 yny, 7 sampsŷn, 8 hywel, 9 yn escob yn, 10 kaer, 11, dŷywan?

(Ch. 30). 1 o oliwyd, 2 ymadrodyon hynny

(Ch. 31). 1 anryfedu, 2 athrudanyaeth, 3 hefyt *add.*

ydóyf gan goffau y sarhaedeu⁴ a wnaethost di⁵ y Rufein. Ac anheilóg yó genyf nat atwaenost⁶ dy vynet oth dieithyr⁷ dy hun, ac na wydut ac nat yttóyt⁸ yn medylyaó py veint trymder yó góneuthur kodyant y sened Rufein, 5 yr honn a ódost di⁹ bot yr holl vyt yn talu góassanaeth idi. Kanys y deyrnget a orchymynóyt y dalu idi, yr hún¹⁰ a gafas Ulkassar a Ilaóer o amherodron ereill góedy ef a chyn no minheu¹¹ dróy laóer o amseroed—a húnno gan dremygu¹² gorchymyneu kymeint ac vn 10 sened Rufein—a gamryvygeist di¹³ y attal. Ac y gyt a hynny ti a dugost Bórgóyn ac ynyssed yr eigaón yn hollaól, brenhined y rei hynny, hyt tra yttoed Rufeinaól uedyant yn eu medu, a dallasant teyrnget yr amherodron a vuant kyn no minheu. A chanys or veint sarhaedeu¹⁴ 15 hynny y barnóys sened Rufein y minheu iaón y genhyt ti, órth hynny minheu a ossodaf teruyn ytti yr Aóst kyntaf yssyd yn dyuot, dyuot ohonat titheu hyt yn Rufein y wneuthur iaón or saól sarhaedeu¹⁴ hynny, ac y diodef y vraót a uarnho sened Rufein arnat. Ac ony 20 deuy uelly,¹⁵ miui a gyrchaf dy teruynneu.¹⁶ A megys y ranho y clefydeu,¹⁷ mi ae ranaf¹⁸ ac a lafuryaf y dóyn drachefyn órth sened Rufein.’’

32. A góedy datkanu y Ilythyr húnno rac bron Arthur ar brenhined ar tywyssogion a oedynt y gyt ac ef, ef 25 ac óynt a aethant y gyt hyt yn tór y keóri y gymryt kyghor py beth a ónelhynt yn erbyn y kymynedióeu¹ hynny. Ac ual yd oedynt yn esgynnu² gradeu y tór, kadór iarll Kernyó megys góer Ilaóen y uedól³ a dywaót yr ymadraód húnno : “ Kyn no hynn ofyn a ry fu arnaf i 30 rac goruot o lesged y Brytanyeit o hir hedóch, a cholli

(Ch. 31). 4 sarahedeu, 5 wnaethosti, 6 atwaenosti, 7 odieithyr, 8 ydóyt, 9 ódosti, 10 hon, 11 thithen, 12 tremygu, 13 gamryfygeisti, 14 sarahedeu, 15 dohy y velly, 16 terfynneu, 17 clefyfeu, 18 kymhellaf

(Ch. 32). 1 kymenediveu, 2 yskynnu, 3 y vedól *om.*

clot eu milŵryaeth, or honn y buant hŵy eglurach no neb o genedloed y byt yn hollaŵl. Sef achaws yŵ. Yn y lle y peitter ac⁴ arueru o arueu, ac aruer or ŵydbŵyll ar daplas a serch gŵraged, nyt oes petrus yna llygru o lesged py beth bynhac a ry fei⁵ o nerth yno a chedernit 5 ac enryded a chlot. Kynys⁶ pump mlyned hayach ar⁷ ethynt yr pan yttym ni yn arueru or ryŵ seguryt hŵnnŵ ar digrifŵch, a heb arueru o diŵyll ymlad. Ac ŵrth hynny Duŵ yr mynu⁸ an rydhau ni or llesged honno a gyffroes gŵyr Rufein yn an herbyn, hyt pan alwem 10 ni an clot ac an milŵryaeth ar y hen gynefaŵt.”

33. A gŵedy dyŵedut o Gadŵr yr ymadrodyon hynny a llawer o rei ereill, or diwed ŵynt a deuthant yr eisteduaeu. A gŵedy eisted o baŵp yn y le, Arthur a dyŵaŵt ual hynn ŵrthunt: “Vyg kedymdeithon ar rŵyd 15 ac ar dyrys, molyant yr rei hyt hynny¹ ac yn rodi eu² kyghoreu ac eu³ milŵryaeth, ac yr⁴ aŵr honn o vn vryt rodŵch aŵch kyghor, ac yn doeth racvedylyŵch py beth a uo iaŵn y ateb yn erbyn yr atebyon hynn Kanys py beth bynhac⁵ a racvedylyer⁶ yn da yn y blaen y gan 20 doethon, pan del ar ŵeithret, haŵs vyd y diodef. Ac ŵrth hynny haŵs y gallŵn ninheu diodef ryfel gŵyr Rufein, ŵs o gyffredin gyfundeb a chytgyghor yn doeth y racuedylyŵn py wed y gallom ni gŵahanu ac eu ryfel ŵynt. Ar ryfel hŵnnŵ, herŵyd y tebygaf i, nyt 25 maŵr reit yn y ofynhau. Kanys andylyedus y maent hŵy⁷ yn erchi teyrnget o ynys Prydein. Kanys ef a dyŵeit dylu y talu idaŵ ef ŵrth y talu⁸ y Ulkassar⁹ ac y ereill gŵedy hŵnnŵ, a hynny o achaws teruysc ac anuundeb¹⁰ y rŵg an hendateu¹¹ ninheu, a dugassant¹² 30

(Ch. 32). 4 o, 5 ryffei, 6 kanys, 7 a, 8 mynnu

(Ch. 33). 1 yr rei a profeis hyt hyn, 2 om., 3 y, 4 ar, 5 bynac, 6 racweler, 7 ŵy, 8 dalu, 9 ulkassar, 10 annundab, 11 hendadeu, 12 ducsant

wyr Rufein yr ynys honn, ac o dreis¹² y gŵnaethant yn trethaól.¹³ Ac ŵrth hynny py beth bynhac a gaffer drŵy na thŵyŵll na chedernit,¹⁴ nyt o dyltet y kynhellir hŵnnŵ. Pŵy bynhac a dycko treis, peth andylyedus a geis y 5 gynhal. A chanyŵ andylyedus y maent ŵy yn keissaŵ teyrnget y genhym ni, yn gynhebic y hynny ninheu a deissyfŵn teyrnget y gantunt hŵy¹⁵ o Rufein, ar kadarnaf ohonom ni kymeret y gan y llall.¹⁶ Kanys or goresgynŵys¹⁷ Ulkassar¹⁸ ac amherodron ereill gŵedy 10 ef ynys Prydein, ac o achawŵ hynny yr awr honn holi teyrnget ohanei,¹⁹ yn gynhebic y hynny minheu a varnaf dyltu o²⁰ Rufein talu teyrnget y minheu. Kanys vy rieni ynheu gynt a oresgynnassant²¹ Rufein ac ae kynhalassant, nyt amgen, Beli uab Dyfynwal gan 15 ganhorthŵy Bran y vrawt duc Bŵrgŵyn, gŵedy crogi petwar gŵystyl ar hugeint²² o dyltedogyon²³ Ruuein rac bron y gaer, ac ae dalyassant drŵy laŵer o amseroed. A gŵedy hynny Custenin mab Elen a Maxen mab 20 Lywelyn—pob vn or rei hynny yn gar agos y mi o gerenhyd,²⁴ ac yn vrenhined arderchaŵc o goron ynys Prydein—yr vn gŵedy y gilyd a gaŵssant amherodraeth Rufein. Ac ŵrth hynny pony bernŵch chŵi bot yn iaŵn y minheu deissyfeit teyrnget o Rufein? O Ffreinc ac or ynyssed ereill ny ŵrthebŵn ni udunt ŵy, kany doethant 25 y hamdiffyn, pan y goresgynassam,²⁵ nac oe gŵarafun. Ac ŵrth hynny ny ŵrthebŵn ni udunt hŵy²⁶ or rei hynny.”

34. A gŵedy teruynu o Arthur yr ymadraŵd, Howel¹ uab Emyr Lydaŵ a ŵrthebaŵd ym blaen² paŵb y ymadraŵd Arthur ual hyn: “Pei³ traethei bop un⁴ ohonom ni⁵ a 30 medyltaŵ pob peth yn y uedŵl, ny thebygaf i⁶ gallu

(Ch. 33). 12 treis, 13 treulaŵ, 14 gaffer a thvyŵll a chedernit, 15 vy, 16 teyrnget *add.*, 17 o gverysgynnvyŵs, 18 vlkassar, 19 oheni, 20 wyr *add.*, 21 weryskynassant, 22 hugein, 23 dyltedogyon, 24 gerenyd, 25 gveryscynassam 26 *om.*

(Ch. 34). 1 hywel, 2 ymlaen, 3 bei, 4 bavb, 5 oŵll *add.*, 6 thybygaf

o neb ohonam ni rodi kyghor gŵerthuaŵrogach⁷ nac attech
 grynoch na doethach nor hŵn a rodes doethineb⁸ yr
 arglŷd Arthur ehun. Ac ŵrth hynny yr hyn a
 racuedylyaŵd⁹ medŵl doeth anyanaŵl gŵastat,¹⁰ ninheu
 yn hollaŵl moli hŵnnŵ a dylyŵn ae ganmaŵl yn wastat. 5
 Kanys yn herŵyd y dylyet a dyŵedy di, or¹¹ mynny di
 kyrchu Rufein, ny phetrussaf¹² i yd aruerŵn ni or
 uudugolyaeth, hyt tra vom ni yn amdifyn an rydit,
 hyt tra geissom ni an iaŵn y gan an gelynyon, y peth
 y maent hŵy¹³ yn gam yn y geissaŵ y gennym ninheu. 10
 Kanys pŵy bynhac a geisso dŵyn y ureint ae dylyet gan
 gam y gan arall, teilŵg yŵ idaŵ ynteu kolli y vreint ae
 dylyet. Ac ŵrth hynny kanys gŵyr Rufein yssyd yn
 keissaŵ dŵyn yr einym ni, heb amheu ninheu a dygŵn
 y racdunt¹⁴ yr eidunt, o ryd Duŵ gyfle y ymgysuaruot ac 15
 ŵynt. A llyna ymgysfaruot damunedic yr holl vrytanyeit.
 Lyma daroganneu¹⁵ Sibli yn wir,¹⁶ a¹⁷ dyŵaŵt dyuot o
 genedyl y Brytanyeit tri brenhin a oresgynynt¹⁸
 Rufeinaŵl amherodraeth. Ar deu a ryfu, ac yr¹⁹ aŵr
 hon yd ym yth gaffael titheu yn drydyd,²⁰ yr hŵn y 20
 tyfŵys²¹ blaenŵed Rufeinaŵl enryded.²² Or deu neur
 deryŵ eilenŵi yn amlŵc, megys y dyŵedeist ti,²³ yr eglur
 tyŵyssogyon²⁴ Beli a Chustenin;²⁵ pob un onadunt a
 uuant amherodron yn Rufein. Ac ŵrth hynny bryssya
 titheu²⁶ y gymryt y pe[t]h²⁷ y mae Duŵ yn y rodi itt. 25
 Bryssya y oreskyn²⁸ y peth oe uod yssyd²⁹ yn mynu³⁰
 y oresgyn.²⁸ Bryssya y an hardrychafel³¹ ni oll, hyt
 pan yth ardrychauer titheu. Ac³² ny ochelŵn ninheu
 kymryt gŵelieu ac agheu, or byd reit.³³ A hyt pan

(Ch. 34). 7 gverthuorogach, 8 nor hŵn a racuedylyaŵd racweledic doethineb, 9 racwelas, 10 gvastadavr, 11 o, 12 phedrussaf, 13 vy, 14 dygvn racdunt vy, 15 darogan, 16 yn dyfot yn wir, 17 hi a, 18 werescynnt, 19 ar, 20 ydym yn kafel y trydyd, 21 yr hvn yd yttys yn adav, 22 anryded, 23 dywedeisti, 24 yn eglur y tywyssogyon, 25 chustenhin, 26 ditheu, 27 peth, 28 werescyn, 29 om., 30 oe vod add., 31 ardrychafel, 32 om., 33 in add.

geffych ti hynny, minheu ath gedymdeithockaf ti³⁴ a deg mil o varchogyon aruaŵc y gyt a mi y achŵanegu dy lu.”

35. A gŵedy teruynu o Howel¹ y barabyl, Araŵn uab
 5 Kynuarch brenhin Prydein a dywaŵt ual hynn: “ Yr pan dechreuaŵd vy arglŵyd i dywedut y ymadraŵd, ny allaf i² traethu am tauaŵt y veint lewenyd yssyd ym medŵli. Kanys nyt dim gennyf i a ry wnaetham³ o ymladeu ar yr holl urenhined a oresgynnassam⁴ ni hyt hynn, os
 10 gŵyr Rufein a gŵyr Germania dihagant⁵ yn diarueu⁶ y genhym ni, a heb dial arnadunt yr aeruaeu a ŵnaethant ŵynteu oc an rieni ni gynt. A chanys⁷ yr aŵr honn y mae darpar ymgyfaruot ac ŵynt, llawen yŵ genyf; a damunaŵ yd ŵyf y dyd yd ymgyfarffom ni ac ŵynt.
 15 Kanys sychet eu gŵaet ŵynt yssyd arnaf i yn gymeint a phef gŵelŵn fynhaŵn oer⁸ ger vy mron y yfet diaŵt ohonaei, pan vei arnaf diruaŵr sychet.⁹ Oia Duŵ! gŵyn y uyt a arhoei y dyd hŵnnŵ! Melys a welieu genyf i¹⁰ y rei a gymerŵn i neu y rei a rodŵn inheu, tra
 20 neŵityŵn an deheuoed y gyt an gelynyon. Ar agheu honno yssyd uelys, yr honn a diodefŵn yn dial¹¹ uy rieni am kenedyl, ac yn amdiffyn vy rydit, ac yn ardyrchauel¹² an brenhin. Ac ŵrth hynny kyrchŵn yr hanher gŵyr¹³ hynny; na safŵn yn eu kyrchu, hyt pan
 25 orfom ni arnadunt ŵy gan dŵyn eu henryded,¹⁴ yd aruerom¹⁵ ni¹⁶ o laŵen uudugolyaeth. Ac y achŵanekau dy lu ditheu minheu a rodaf dŵy vil o varchogyon aruaŵc heb eu pedyt.”¹⁷

36. A gŵedy daruot y baŵp dywedut y peth a vynhynt
 30 yg kylch hynny, adaŵ a oruc paŵb nerth, megys y bei y

(Ch. 34). 34 gytymdeithockavn ditheu

(Ch. 35). 1 hvel, 2 allaffi, 3 genhym ar wnaetham, 4 werysgynassam, 5 diaghant, 6 diaerua, 7 achavs, 8 loyv eglur, 9 ohonaei—sychet *om.*, 10 genhyfi, 11 gvaet *add.*, 12 ardrychafel, 13 yr avr hon yr haner gvyr, 14 hanryded, 15 aruerhom, 16 ni oll, 17 pedyd

allu ae defnyd yn y wassanaeth. Ac yna y kahat o ynys Prydein ehun¹ trugein mil o varchogyon aruaóc, heb deg² mil a adaóssei urenhin Lydaó. Ac odyne brenhined yr ynysed ereill (kany buassei aruer o varchogyon³) paóó onadunt a edeóis pedydgant y saól 5 a ellynt eu kaffel. Sef a gahat or chwech ynys, nyt amgen, Iwerdon ac Islont a Gotlont ac o⁴ Orc a Lychlyn a Denmarc, ché⁵ ugein mil o pedyt;⁶ ac y gan tyóyssogyon Freinc, nyt amgen, Ruthyn a Phortu a Normandi a Cenoman ar Angió a Pheitaó, petwar ugein 10 mil o uarchogyon. Ac y gan y deudec gogyfarch⁷ y deuthant⁸ y gyt a Gereint deucant⁹ marchaóc a mil o varchogyon aruaóc. A sef oed eiryf hynny oll y gyt, deu cant marchaóc a their mil a phetóar vgein mil a chanmil, heb eu pedyt,⁶ yr hyn nyt oed haóó eu gossot 15 yn rif.

37. A góedy góelet o Arthur paóó yn baraót yn y reit ae wassanaeth, erchi a oruc y baóó bryssyaó y wlat ac ymbaratoi, ac yn erbyn Kalan Aóst bot eu kynadyl oll y gyt ym porth Barberfloi ar tir Lydaó, órth gyrchu 20 Bórgóyn odyne yn erbyn góyr Freinc. Ac y gyt a hynny menegi a oruc Arthur órth genadeu góyr Rufein na thalei ef tyrnget udunt hóy¹ o ynys Prydein. Ac nyt yr góneuthur iaón vdunt or a holynt yd oed ef yn kyrchu Rufein, namyn yr kymell teyrnget idaó ef o 25 Rufein, megys y barnassei ehun y dylyu. Ac ar hynny yd aethant y brenhined ar góyrda paóó y ymbaratoi heb vn annot, erbyn yr amser teruynedic a ossodyssit udunt.

38. A góedy adnabot o Les amheraódyr yr atdeb a gaóssei y gan Arthur, dróy gyghor sened Rufein ef a 30

(Ch. 36). 1 *om.*, 2 y deg, 3 varchogaeth, 4 *om. recte*, 5 whe, 6 pedyt
7 gogyfurd, 8 doethant, 9 deudeckant

(Ch. 37). 1 vy

elÿgŷys kenadeu y wyssyaŷ brenhined y dŷfrein,¹ ac erchi² dyuot ac eu lloed gantunt y gyt ac ef ŷrth oresgyn³ ynys Prydein. Ac yn gyflym yd ymgynull-assant yno Epistrophus⁴ vrenhin Groec,⁵ Mustensar 5 brenhin⁶ yr Affric, Aliphantina urenhin yr Yspaen, Hirtacus vrenhin Parth, Boctus brenhin Iudiff, Sertor⁷ brenhin⁶ Libia, Serx vrenhin Nuri, Pandrasius brenhin⁶ yr Eiff, Missipia⁸ brenhin⁶ Babilon, Teucer duc Frigia, Euander duc⁶ Siria, Echion o Boeti, Ypolit o Creta,⁹ y 10 gyt ar tywyssogyon a oedynt darestygedigyon udunt ar gŷyrda. Ac y gyt a hynny o vrdas y senedwyr Les, Kadell, Meuruc, Lepidus, Gaius, Metellus,¹⁰ Octa, Quintus, Miluius, Taculus, Metellus, Quintinus, Gerucius.¹¹ A sef¹² oed eiryf hynny oll y gyt, 15 canŷr a thrugein mil a phetŷar can mil.

39. A gŷedy ymgyweiraŷ onadunt o bop peth or a vei reit udunt, Kalan Aŷst hŷynt¹ a gymerassant eu hÿnt parth ac ynys Prydein. A phan ŷybu Arthur hynny, ynteu a orchymynŷys llywodraeth ynys Prydein y 20 Vedraŷt y nei uab y chŷaer, ac y Wenhŷyvar vrenhines. Ac ynteu ae lu a gychŷynŷys parth a phorthua² Hamtŷn. A phan gafas y gŷynt gyntaf³ yn y ol, ef a aeth yn y logeu ar y mor.⁴ Ac val yd oed uelly o aneiryf amylder llogeu yn y gylch, ar gŷynt yn rŷyd yn y ol, gan 25 leŷenyd yn rŷygaŷ y⁵ mor, mal am aŷr haner nos, gŷrthrŷm hun a disgynŷys⁶ ar Arthur. Sef y gŷelei drŷy y hun, arth yn ehedec yn yr aŷyr; murmur hŷnnŷ ae odŷrd a lanwei y traetheu o ofyn ac aruthred. Ac y ŷrth y gorlleŷin y gŷelei aruthyr⁷ dreic yn ehedec, ac o

(Ch. 38). 1 dvyrein *recte*, 2 ac y erchi vdunt, 3 wereskyn, 4 epitrophus 5 goroc, 6 vrenhin, 7 settor, 8 mesipia, 9 greta, 10 metelus, 11 *For Quintus Jerucius A has Quintus milnius katulus metelus Quintus cerutius (?)*, 12 Ac ysef

(Ch. 39). 1 vynt, 2 phorth, 3 kyntaf, 4 ar y mor *om.*, 5 *om.*, 6 dygvdyvs, 7 arthur

egllurder y llygeit yn goleuhau yr hoŵl wlat. A phob vn or rei hynny a welei yn ymgyrchu, ac yn ymlad yn irat ac yn greulaón. Ac or diwed y gŵelei y raddybededic dreic yn kyrchu yr arth, ac ae thanaól anadyl yn y losgi, ac yn y vŵrŵ yn llosgedic yn y dayar. A 5 gŵedy duhunaól o Arthur, ef a datkanaól y weledigaeth⁸ yr gŵyrda a o[e]dynt⁹ yn y gylch. Ac ŵynt gan y dehogyl a dybedassant mae¹⁰ Arthur a arŵdockaei y dreic, ar arth a arŵdockaei y kaŵr a ymladei ac ef, ar ymlad a welei y rydunt a arŵdockaei yr ymlad a vydei¹¹ 10 y rydaól ef ar kaŵr, ar uudugolyaeth a damweinhei¹² y Arthur or kaŵr. Ac amgen no hynny y tebygei¹³ Arthur ehun uot y dehogyl. Kanys ef a dybygei y mae oe achaws ef ar amheraŵtyr¹⁴ y gŵelei ef y vreidŵyt. A gŵedy rydec y nos, or diŵed pan yttoed gŵaŵr dyd yn 15 cochi tranoeth,¹⁵ ŵynt a disgynnassant ym porthua¹⁶ Barberflŵy yn llydaól. Ac yn y lle tynu¹⁷ pebylleu a wnaethant, ac yno aros brenhined yr ynyssed¹⁸ ar gŵladoed ac eu llŵ atunt.

40. A gŵedy ymgynullaól paŵb y gyt or yd oedynt yn 20 aros, Arthur a gychŵynŵys odyno hyt yn Aŵgustudŵm, y lle y tybygei bot yr amheraŵdyr ae lu yn dyuot. A gŵedy y dyuot hyt ar lann yr Avon Wenn ym Bŵrgŵyn, ef a venegit idaól bot yr amheraŵdyr gŵedy pebyllaól nyt oed bell odyno, a chymeint o luoed gantaól ac y dywedit 25 nat oed neb a allei gŵrthŵynebu idaól. Ac yr hynny eissoes ny chynhyruaól Arthur dim, namyn gossot y bebylleu ae luesteu ar lann yr auon, megys y gallei yn rŵyd ac yn ehang llunyaethu y lu, or bei reit idaól, yn y lle hŵnnŵ. Ac odyna yd anuones Arthur Boso o Ryt 30 Ychen a Gŵal[ch]mei uab Gŵyar a Gereint Garanŵys hyt

(Ch. 39). 8 vreidvyt, 9 oed, 10 y mae, 11 vei, 12 damweinei, 13 tybygei, 14 amheravdyr, 15 dranoeth, 16 ymhorthua, 17 tannu 18 ynyssod

ar amheraódyr Rufein, y erchi idaó mynet o teruyneu Freinc, neu tranoeth rodi kat ar uaes y Arthur, y wybot púy oreu onadunt a dylyei Ffreinc. Ac annoc a ónaeth jeuentit Ilys Arthur y Walchmei góneuthur góρθgassed 5 yn Ilys yr amheraódyr, megys y gellynt gaffel gosgymonn y ymgyuaruot a góyr Rufein.

41. Ac odyne y trywyr hynny a gerdassant at yr amheraódyr, ac a archassant idaó mynet ymeith o Ffreinc, neu ynteu trannoeth rodi kat ar uaes y Arthur. Ac ual 10 yd oed yr amheraódyr yn dyóedut nat mynet ohonei a dylyei, namyn dyuot oe hamdiffyn ac y Ilyóyaó, nachaf Quintinus nei yr amheraódyr yn dywedut bot yn hóy gorhoffed a bocsach y Brytanyeit noc eu gallu ac eu gleóder, a bot yn hóy eu tauodeu noc eu clefydeu.

15 Ac órth hynny Ilityaó a oruc Góalchmei, a thynnu cledyf a llad y benn ger bronn y ewythyr. Ac yn y lle ar hynt kaffel eu meiryth ac ymtynnu or Ilys ef ae gedym[d]eithon, ar Rufeinwyr ar veiryth ac ar traet yn eu hymlit y geissaó dial y góyr arnadunt oc eu holl ynni.

20 Ac ual yd oed vn or Rufeinwyr yn ymordiwes a Gereint Garanóys, ef a troes arnaó, ac a gleif ae góant tróy y holl arueu a thróydaó ehun, yny vyd yr llaóyr y ar y varch yn varó. Ac yna blyghau a oruc Boso o Ryt Ychen, a throiy varch a oruc, ar kyntaf a gyvaruu ac ef, ef a ossodes 25 arnaó yn y vogel, ac a rodes dyrnaót agheuaól idaó, a chymell arnaó ymadaó ae varch ac ymadassu ar dayar. Ac ar hynny nachaf Marell Mut senedóyr oe holl ynni yn keissaó dial Qóintilian ac yn ymordiwes a Góalchmei yn y ol ac yn mynnu y dala, pan ymchoelaó Góalchmei 30 arnaó yn gyflym, ac a chledyf llad y benn yn gyfuch ae dóy yscóyd; ac y gyt a hynny gorchymun idaó, pan elhei y uffern, menegi y Góintinal, yr hónn a ladassei ef yn y pebyll, bot yn amyl gan y Brytanyeit y ryó or hoffter hónnó. Ac odyne ymóascu ae gedymdeithon

a oruc Góalchmei ac eu hannoc, a llad o bop un ór; ar Rufeinwyr ar góeóyr ac ar clefydeu yn eu fustaó, ac ny ellynt nac eu dala nac eu bóró. Ac ual yd oedynt geir lláo coet a oed yn agos udunt, ar Rufeinwyr yn eu herlit yn lut, nachaf chwe mil or Brytanyeit yn dyuot or coet 5 yn borth yr tywyssogyon a oedynt ar ffo, ac ar hynt yn dangos yr ysparduneu yr meiryech, ac yn llanó yr aóyr o lefein a dodu eu taryaneu ar eu bronnoed ac yn deissyfyt kyrchu y Rufeinwyr ac yn y lle eu kymell ar ffo, ac o vn vryt eu herlit, a bóró rei onadunt yr lláo, a dala ereill, 10 a llad ereill.

42. A góedy menegi hynny y Petrius senedór, ef a gymerth degmil y gyt ac ef, a bryssyaó yn ganhorthóy y gedymdeithon,¹ ac yn y lle kymell y Brytanyeit ar fo yr coet y dathoedynt ohonaó. Ac eissoes nyt heb 15 wneuthur diruaór gollet yr Rufeinwyr. Kanys y Brytanyeit, kyt foynt, pan geffynt adóyeu kyfig a lleoed dyrys, aerua uaór a óneynt or Rufeinwyr. Ac ual yd yttoedynt hóy yn ymladar y wed honno, nachaf Hydeir uab Mut a phump mil y gyt ac ef yn dyuot yn ganhorthóy 20 yr Brytanyeit. Ac yn y lle ymchoelut a wnaethant; ar rei a oedynt yn dangos eu kefneu ar ffo yr aór honno, yn y lle yd oedynt yn dangos eu bronnoed ac yn rodi górolyon dyrnodeu bop eilwers yr Rufeinwyr, ar Brytanyeit oc eu holl dihwyt yn damunaó milóryaeth. 25 Ac ny didorynt py damóein y dygóydynt yndaó, hyt tra gynhelynt eu clot ym milóryaeth, megys y dechreuyssynt. Ar Rufeinóyr kymhennach y góneynt óy; kanys Petrius megys tyóyssaó da ae dysgei óynt yn doeth góers y gyrchu góers arall y ffo, megys y góelei yn dygrynoi 30 udunt. Ac uelly y góneynt golldeu maór yr Brytanyeit.

43. A phan welas Boso o Ryt Ychen hynny, galó a oruc attaó laóer or Brytanyeit gleóaf a óydat ar neilltu,

1. MS. gedyndeithon

a dyŵedut ōrthunt ual hyn : “ Dioer,” heb ef, “ kanys heb wybot y an brenhin y dechreuassam ni yr ymlad hōnn, reit oed yn ninheu ymoglyt rac an dygŵydaŵ yn y¹ ran waethaf or ymlad. Ac os uelly y dygŵydaŵ,

5 kollet maŵr oc an marchogyon a gollōn, ac y gyt a hynny an brenhin a dygōn ar gyffro ac irloned ōrthym. Ac ōrth hynny gelōch aōch gleōder attaōch, a chanlynōch vinheu drōy vydinoed y Rufeinwyr. Ac o kanhorthōya an tyghetuenneu ni, ae llad Petrius ae dala ni a orvydaŵ.”

10 44. Ac ar hynny dangos yr ysparduneu yr meiry ch a orugant, a thrōy vydinoed y marchogyon o ebrōyd ruthur mynet drostunt hyt y lle yd oed Petrius yn dysgu y gedymdeithon. Ac yn gyflym Boso a gyrchaōd Petrius a meglyt yndaŵ herōyd y vynōgyl a, megys y

15 racdyŵedassei, dygŵydaŵ y gyt ac ef yr llaŵr. Ac ōrth hynny ymgynullaŵ a ōneynt y Rufeinwyr y geissaŵ y ellōg y gan y elynyon. Ac or parth arall yd ympentyrrynt y Brytanyeit yn borth y Voso o Ryt Ychen. Ac yna y clyōit y lleuein ar gorderi; yna yd oed yr aerua diruaŵr

20 o bop parth, hyt tra ytoedynt y Rufeinwyr yn keissaŵ rydhau eu tyōyssaōc, ar Brytanyeit yn y attal. Ac yna y gellit gŵybot pōy oreu a digonei a gŵayō, pōy oreu a saetheu, pōy oreu a chledyf. Ac or diwed y Brytanyeit gan teōhau eu bydinoed a dugant eu ruthur ar

25 karcharoryon gantunt drōy vydinoed y Rufeinōyr, hyt pan vydynt ym perued kedernit eu hymlad ehunein a Phetriusgantunt. Ac yn y lle ymchoelut ar yr Rufeinwyr ymdieuit oc eu tywyssaōc ac or ran vōyaf yn ōanach ac yn ōasgaredigach dangos eu kefnue a orugant ōrth ffo.

30 Ac ōrth hynny estōg gantunt a ōnaeth y Brytanyeit, ac eu llad ac eu hyspeilaŵ, ac erlit y rei a ffoynt, a dala llaŵer or rei a damunynt y eu dangos yr brenhin. Ac or

diwed gŵedy gŵneuthur llaber o berigleu a drŵc onadunt, y Brytanyeit ŵynt[eu] a ymchoelassant y eu pebylleu ar karcharoryon ac ar yspeileu gantunt. A chan leŵenyd ŵynt a dangossant Petrius ar karcharoryon ereill y gyt ac ef y Arthur. Ac ynteu a diolches udunt gan diruaŵr 5 leŵenyd eu llafur ac eu gŵassanaeth yn y aŵssen ef, gan adaŵ achŵaneckau eu henryded ac eu kyuoeth am eu milŵryaeth ac eu molyant. Ac yna yd erchis Arthur mynet ar carcharoryon hyt ym Paris y eu kadŵ, tra gymerit kyghor amdanunt. Ac yd erchis Arthur y 10 Gadŵr iarll Kernyŵ a Bedwyr a Rickart a Bosel ac eu teuluoed y gyt ac ŵynteu eu hebrŵg, hyt pan elhynt yn diogel, rac ofyn tŵyll y Rufeinwyr.

45. Ar Rufeinwyr y nos hono, gŵedy caffel onadunt gŵybot y darpar hŵnnŵ, a etholassant pymtheg mil o wyr 15 aruaŵc ac ae gellygassant hyt nos y ragot y fford y tebygynt eu mynet trannoeth, y geissaŵ rydhau eu karcharoryon. Ac yn tyŵyssogyon ar yr rei hynny y gossodet Ultei a Chadell a Chwintus senedŵr ac Evander vrenhin Siria a Sertor vrenhin Libia. Ar rei hynny 20 oll a gymerasant eu hynt, hyt pan gaŵssant y lle a vei adas gantunt y lechu, ac yno aros y dyd arnadunt.

46. Ar bore drannoeth kymryt eu fford a wnaeth y Brytanyeit ac eu karcharoryon parth a Pharis. Ac val yd oedynt yn dyuot yn agos yr lle yd oed y pyt y gan 25 eu gelynyon arnadunt, ac ŵynteu heb wybot dim or vrat nae thybyaŵ, yn dirybud eu kyrchu a oruc y Rufeinwyr, a dechreu eu gŵaskaru a mynet drostunt. Ac eissoes, kyt kyrchit y Brytanyeit yn dirybud, ny chahat yn diaruot, namyn yn ŵraŵl gŵrthŵynebu y eu gelynyon. 30 A rei a dodassant y gadŵ y karcharoryon, ac ereill yn vydinoed y ymlad. Ar vydin a ossodassant y gadŵ y carcharoryon a orchmynnassant y Rickert a Bedwyr. A thywyssogaeth y rei ereill a orchymynnŵyt y Gadŵr

iarll Kernyó, a Borel yn gyttywyssaó c idaó. Ar Rufeinwyr kyrchu a wneynt heb geissaó na llunyeithaó eu góyr nae bydinaó, namyn oc eu ho ll lafur keissaó góneuthur aerua or Brytanyeit, hyt tra yttoedynt óynteu
 5 yn bydinaó eu góyr ac yn eu hamdiffyn ehunein. Ac órth hynny gan eu góanhau yn ormod óynt yn dybryt a gollassant eu karcharoryon, pei na danuonei eu tyghetuen vdunt damunedic ganhorthóy ar vrys. Kanys Góittart iarll Peittaó, góedy góybot y tóy ll hónnó, a death a their
 10 mil gantaó. Ac or diwed gan nerth Duó ar kanhorthóy hónnó y Brytanyeit a oruant, ac a talyssant eu haerua yr tóy llwyr. Ac eissoes yn y gyfranc kyntaf y collassant lawer. Kanys yna y collassant yr arderchaó c tywyssaó Borel o Cenoman; yn kyuaruot ac Euander vrenhin Siria
 15 yn vrathedic gan y waeó y dygóydóys. Yna y kollassant hefyt petóar góyr bonhedigyon, nyt amgen, Hirlas o Pirón a Meuruc o Gaer Geint ac Alidó c o Dindagól a Hir uab Hydeir. Nyt oed haó d kaffel góyr leóach nor rei hynny. Ac yr hynny ny chollassant y Brytanyeit
 20 eu glewder,¹ namyn oc eu llaur kadó eu karcharoryon. Ac or diwed ny allyssant y Rufeinwyr diodef eu ruthur, namyn yn gyflym adaó y maes a ffo parth ac eu pebylleu, ar Brytanyeit yn eu herlit ac yn góneuthur aerua onadunt. Ac ny pheidassant yn eu dala ac yn eu llad,
 25 hyt pan ladassant Vltei a Chadell senedór ac Evander vrenhin Siria. A góedy caffel or Brytanyeit y vudugolyaeth honno, óynt a anuonassant y karcharoryon hyt ym Paris. Ar rei a dalyassant o newyd, óynt ae hym[ch]oelassant ar Arthur eu brenhin oe dangos, gan
 30 adaó gobeith ho ll uudugolyaeth idaó; kanys nifer mor vychan a hónnó a geóssynt uudugolyaeth ar y saó l elynyon hynny.

1. MS. gleuder

47. A gŵedy gŵelet o Les amheraŵtyr Rufein meint y gollet ar dechreu y ryfel, trŵm a thrist uu gantaŵ. A medylyaŵ a oruc peidaŵ ae darpar am ymlad ac Arthur a mynet y dinas Aŵuarn y aros porth o newyd attaŵ y gan Leo amheraŵdyr. A gwedy caffel o honaŵ hynny 5 yn y gyghor, y nos honno ef a aeth hyt yn Legris. A gŵedy menegi hynny y Arthur, ynteu a raculaenŵys y fford ef. Ar nos honno, gan adaŵ y dinas ar y Ilaŵ asseu idaŵ, ef a aeth hyt y myŵn dyffryn y fford y kerdei Les amheraŵdyr ae lu. Ac yno y mynŵys ef bydinaŵ y 10 wyr. Ac ef a erchis y Vorud iarll Kaer Loyŵ kymryt attaŵ Ileg o wyr a mynet ar neilltu yg gŵersyll, a phan welei uot yn reit ŵrthunt, dyfot yn ganhorthŵy. Ac odyna y nifer oll y am hynny a ranŵys yn naŵ bydin, ac ym pob bydin or naŵ chwe gŵyr a chwe ugeint a chwe 15 chant a chwe mil, ar rei hynny yn gyweir o bop arueu, ar rann o bop bydin yn uarchogyon ar rann arall yn bedyt, a thywyssogyon y dyscu pob bydin yn y blaen. Ac yr vydin gyntaf y rodet Araŵn uab Kynuarch a Chadŵr iarll Kernyŵ, vn yn yr anher deheu ar Ilaŵ yn yr anher 20 asseu. Ac yr vydin arall y rodet Gereint, Garanŵys a Boso o Ryt Ychen. Ac yr dryded y rodet Echel vrenhin Denmarc a Leu uab Kynuarch brenhin Lychlyn. Ac yr bedwared y rodet Howel uab Emyr Lydaŵ a Gŵalchmei uab Gŵyar, deu nei y Arthur. Ac yn ol y pedeir hynny 25 y gossodet pedeir bydin ereill drae kelyn ŵynteu. Ac yr gyntaf or rei hynny y rodet Kei bensŵydwr a Bedwyr bentrullyat. Ac yr nessaf idi y rodet Hodlyn iarll Ruthyn a Gŵittart iarll Peittaŵ; ac yr tryded Owein o Gaer Leon a Ionathal o Gaer Weir; ac yr petwared 30 Vryen Vadon a Chursalem o Gaer Geint. Ac Arthur ehun a etholes¹ Ileg idaŵ o varchogyon aruaŵc o

1. MS. ae otholes

chwe gŷyr a chwe ugeint a chwe chant a chŷe mil. A rac
bron Arthur sefyll y dreic eureit, yr honn a oed yn lle arŷyd
idaŷ, megys y gellynt y gŷyr blin ar rei brathedic, pan
gymhellei eu hagen¹ udunt, ffo dan yr arŷyd honno
5 megys y gastell diogel.

48. A gŷedy llunyaethu paŷb yn y ansaŷd, Arthur a
dywaŷt val hynn ŷrth y varchogyon: "Vyg kytuar-
chogyon kytdiodeuedic ymi,² chŷi a ŷnaethaŷch ynys
Prydein yn arglŷydes ar dec teyrnas ar hugeint; y aŷch
10 deŷred chŷi ac y aŷch molyant y kytdiolchaf ynheu
hynny, y molyant nyt yttyŷ yn pallu nac yn dyffygyaŷ,
namyn yn kynydu. Kyt ry foch chŷi ys pump mlyned
yn arueru o seguryt heb arueru o arueu a milŷryaeth, yr
hynny eissoes ny chollyssaŷch aŷch anyanaŷl dayoni,
15 namyn yn wastat parhau yn ach bonhedic dayoni.
Kanys y Rufeinwyr a gymellassaŷch ar ffo, y rei a oed
oc eu syberŷyt yn keissaŷ dŷyn aŷch rydit y gennŷch,
ac yn vŷy eu nifer nor einym ni. Ac ny allasant sefyll
yn aŷch erbyn, namyn yn dybryt ffo gan achub y dinas
20 hŷnn. Ac yr aŷr honn y doant o hŷnnŷ drŷy y dyffryn
hŷnn y gyrchu Aŷuarn. Ac y am hynn yma y gellŷch
chŷitheu eu kaffel ŷynt yn dirybud ac eu llad megys
deueit. Kanys gŷyr y dŷyreid a debygant³ bot llesked
ynaŷch chŷi, pan geissynt gŷneuthur aŷch gŷlat yn
25 trethaŷl udunt a chwitheu yn geith udunt. Pony
wybuant ŷy py ryŷ ymladeu a dyborthassaŷch chŷi y wyr
Lychlyn a Denmarc ac y tywysogyon Freinc, y rei
a oreskynassaŷch chŷi, ac a rydhaŷssaŷch y ŷrth eu
harglŷydiaeth waratŷydus ŷy? Ac ŷrth hynny, kan
30 gorfuam ni yn yr ymladeu kadarnaf hynny, heb amheu
ni a orfydŷn yn yr ymladeu yscaŷn hynn, os o vn
dihewyt ac o vn vryt y llafuryŷn y gyŷarsagu yr hanner

gŷyr hynn. Py veint o enryded a medyant a chyfoeth a geiff paŷb ohonaŷch chŷi, os megys kytvarchogyon ffydlaŷn yd ufudheŷch chŷi ym gorchymynn ynheu? Kanys gŷedy gorffom ni arnadunt, ni a gyrchŷn Rufein, a ni a gaffŷn y medu hi. Ac velly keffŷch yr eur ar aryant 5 ar llysoed ar tired ar kestyl ar dinassoed; ac eu holl gyuoeth a geffŷch.” Ac val yd oed yn dyŷedut hynny ŷrthunt, paŷb o vn eir a gadarnassant bot yn gynt y diodefynt ageu noc yd ymedeŷynt ac ef, tra vei ef vyŷ or blaen. 10

49. A gŷedy gŷybot or amheraŷdyr y vrat yd oedit yn y darparu idaŷ, nyt ffo a oruc ef megys y darparyssei, namyn galŷ y leŷder attaŷ a chyrchu y dyffryn hŷnnŷ ar eu tor. A galŷ y tyŷyssogyon attaŷ a dywedut ŷrthunt val hyn: “Tadeu enrydedus o arglŷydiaeth, or rei y 15 dylyir kynal teyrnassoed y dŷyrein¹ ar gorlleŷin yn darestygedic vdunt, koffeŷch ych hendadeu, y rei yr gorescyn eu gelynyon ny ochelynt ellŷg eu priaŷt waet ehunein, namyn adaŷ agreiff molyant yr rei a delei gŷedy ŷynt. Ac velly yn vynyeh y goruydynt. A chan 20 oruot y gochelynt agheu, kanys ny daŷ y neb namyn yr neb y gŷelho Duŷ, ar ansaŷd y mynho Duŷ, ar amŷer y mynho. Ac ŷrth hynny yd achŷaneckeynt hŷy gyfoeth Rufein ac eu molyant hŷy ac eu clot ac eu hadŷynder ac eu haelder. Ac o hynny y dyrcheynt ŷynt ac eu 25 harglŷydiaeth ac eu hetiuedyon ar yr holl vyt. Ac ŷrth hynny gan damunaŷ kyffroi ynaŷch chwitheu y kyfryŷ hŷnnŷ yd anogaf i hyt pan alŷoch chŷi attaŷch aŷch anyanaŷl dayoni, a hyt pan safoch yndi gan gyrchu aŷch gelynyon yssyd yn aŷch aros yn y dyffryn hŷnn 30 gan deissyfyt y gennŷch aŷch dylyet. Ac na thebygŷch y mae rac eu hofyn ŷy y kyrcheis i y dinas hŷnn, namyn

1. MS. dŷyfrein

o tebygu an herlit ni ohonunt hŷy, ac yn deissyfyt kaffel ohonam aerua diruaŵr eu meint ohonunt. A chanyŷ yn amgen y gŷnaethant hŷy noc y tebygassŷn i, gŷnaŷn ninheu yn amgen noc y tebygant ŷynteu. Deisyfŷn 5 ŷynt, ac yn leŷ kyrchŷn ŷynt. A chyt gorffont, diodefŷn ni yn da y rythur gyntaf y gantunt; a velly heb amheu ni a oruydŷn. Kanys y neb a safo yn da yn y rythur gyntaf, mynych yŷ y vynet gan uudugolyaeth yn llaŷer o ymladeu.”

10 50. A gŷedy daruot idaŷ teruynu yr ymadraŷd hŷnnŷ a llaŷer o rei ereill, paŷb o vn dihewyt a rodassant eu dŷylaŷ gan tygu nat ymedewynt ac ef; ac ar vrys gwisgaŷ amdanunt eu harueu ac adaŷ Legrys a chyrchu y dyffryn, y lle yd oed Arthur gŷedy llunyaethu y
 15 vydinoed. Ac yna gossot a ŷnaethant hŷynteu drŷy deudec bydin o varchogyon a phedyt yn herŷyd Rufeinaŷl deuaŷt o chwe gŷyr a thrugeint a chwe chant a chŷe mil ym pop bydin; ac ym pop vn ohonunt llyŷodyr, hyt pan vei o dysc hŷnnŷ y kyrchynt ac y
 20 kilynt, pan vei dylyedus udunt, ac y gŷrthŷyneynt y eu gelynyon. Ac y vn or bydinoed y rodes¹ Les. Kadell senedŷr o Rufein ac Aliphantina brenhin yr Yspaan, ac yr eil Hirtacus brenhin Parth a Meuruc senedŷr, ac yr tryded Bocus brenhin Nidif a Ganis
 25 senedŷr, yr bedwared Qŷintus a Myrr senedŷr. Ar pedeir hynny a rodet yn y blaen. Ac yn ol y pedeir hynny y dodet pedeir ereill. Ac y vn or rei hynny y rodet Serx brenhin Ituri, ac yr eil Polites duc Ffrigia, yr tryded Pandrasius brenhin yr Eift, yr pedŷared duc
 30 Bitinia. Ac yn ol y rei hynny pedeir bydin ereill. Ac y vn ohonunt y rodet Qŷintus Carucius, ac yr eil iarll Lelli Hosti, yr tryded Sulpius, yr pedŷared Marius

1. MS. yr adodes

senedór. Ac ynteu yr amheraótyr hónt ac yma, yn annoc y wyr ac yn eu dysgu py wed yd ymledynt. Ac ym perued y llú yd erchis ef sefyll yn gadarn eryr eureit, yr hónn a oed yn lle aróyd idaó, ac erchi y baóp or a óehenit y órth y vydin, gyrchu yno. 5

51. Ac or díóed góedy sefyll paób yn erbyn y gilyd onadunt y Brytanyeit or ne[i]ll parth ar Rufeinwyr or parth araíl, pan glyóssant sein yr aróydon, y vydin, yd oed brenhin yr Yspaen ae gedymdeith yny llywyaó, ymgyuarfot a orugant a bydin Araóu uab Kynuarch a Chadór 10 iaríl Kernyó, a hynny yn wychyr ac yn leó. Ac eissoes ny allyssant nae thorri nae góasgaru. Ac ual yd oedynt uelly yn ymlad yn dywal ac yn wychyr, nachaf Gereint Garanóys a Boso o Ryt Ychen ac eu bydin yn eu kyrchu yn deissyfyt o rydec eu meirych, ac yn tyllu eu gelynyon 15 ac yn mynet drostunt, hyt pan gyfarfuant a bydin brenhin Parth, yr honn a yttoed yn kyrchu yn erbyn bydin Echel brenhin Denmarc a Leu vab Kynuarch brenhin Lychlyn. Ac yna heb vn gohir o bop parth ymgymysgu a ónaethant y bydinoed, a mynet paób dros 20 y gilyd onadunt; ac aerua diruaóy y meint o bop parth, ar lleuein ar gorderi yn llanó yr aóyr o son; ar rei brathedic yn maedu y dayar ac ae penneu ac eu sodleu, a thróy eu góaet yn terfynu eu buched. Ac eissoes y kollet kyntaf a deuth yr Brytanyeit. Kanys Bedwyr a 25 las, a Chei a vrathóyt yn agheuaóíl. Kanys pan ymgyfarvu Vedwyr a brenhin Nidif, y brathóyt a gleif yny dygóydóys. A hyt tra yttoed Gei yn keissaó dial Bedwyr, ym perued kat brenhin Nidif y brathóyt ynteu. Ac eissoes o defawt ¹ marchaóe da, ar ystondard a oed 30 yn y laó gan lad a góasgaru y elynyon, agori fford idaó a oruc; ac ae vydin gantaó yn gyfan ef a doeth hyt ym

plith y wyr ehunan, pei nar gyfarffei ac ef vydin brenhin Libia. Honno a wasgarŷys y vydin ef yn hollaŷl, ac ynteu a ffoes a chorff Bedŷyr gantaŷ hyt y dan y dragon eureit. Ac yna py veint o gŷynuan a oed gan wyr Normandi, 5 pan welsant gorff eu tyŷyssaŷc yn vriŷedic or saŷl welioed hynny? Py veint gŷynuan a ŷneynt wyr yr Angiŷ ŷrth welet gŷelieu Kei eu tyŷyssaŷc, pei kaffei neb enkyt y gŷynaŷ y gilyd gan y amdifŷyn ehunan yg kyfrŷg y bydinoed gŷaetlyt?

10 52. Ac ŷrth hynny Hirlas nei Bedwyr yn gyffroedic o agheu Bedwyr a gymerth a gyt ac ef trychant marchaŷc, a megys baed koet trŷy blith llaŷer o gŷn kyrchu drŷy blith y elynaŷl vydinoed yr lle y gŷelei arŷyd brenhin Nidif, heb didarbot py beth a damŷeinei idaŷ gan gaffel 15 dial y eŷythyŷ ohonaŷ. Ac or diŷed ef a gafas dyuot hyt y lle yd oed vrenhin Nidif, ac ae kymerth o blith y vydin, ac ae duc gantaŷ hyt y lle yd oed gorff Bedwyr, ac yno y dryllyaŷ yn drylleu man. Ac odyndy goralŷ ar y gedymdeithon, a chan eu hannoc kyrchu eu 20 ge ynyon yn vynyŷ, megys gan atnewydu eu nerth, hyt pan yttoedynt eu gelynyon yn ofnaŷc ac eu callonoed yn crynu. Ac y gyt a hynny kyŷreinach y kyrchyt y Brytanyeit oe dysc ynteu, a chreulonach y gŷneynt aerua. Ac ŷrth hynny grym ac angerd oe annoc ef a 25 gymerassant y Brytanyeit, a dŷyn ruthur y eu gelynyon; ac o bop parth udunt diruaŷr aerua a orucpŷyt. Y Rufeinwyr yna y gyt ac aneirŷf o vilyoed y syrthassant. Yna y llas Aliphant vrenhi[n] yr Yspañ, a Misipia vrenhin Babilon, a Chŷintus Miluius, a Marius Lepidus 30 senedŷr. Ac o parth y Brytanyeit y syrthŷys Hodlyn iarll Ruthun, a Leodogar iarll Bolŷyn, a thri thyŷyssaŷc ereill o ynys Prydein, nyt amgen, Cursalem o Gaer Geint, a Gŷallaŷc vab Lywynaŷc o Salsbri, a Vryen o Gaer Vadon. Ac ŷrth hynny gŷahanu a ŷnaethant y bydinoed

yd oedynt yn y llywyaó, ac enkil drachefyn hyt ar y vydin yd oed Howel uab Emyr Lydaó a Góalchmei uab Góyar yn y llywyaó. A phan welas y góyr hynny eu kedymdeithon yn ffo, enynu o lit megys fflam yn enynu godeith, gan aló y rei a oedynt ar ffo a chyrchu eu gelynyon. A chymell ar ffo y rei a oedynt yn eu herlit óynteu kyn no hynny gan eu bóró ac eu llad, a góneuthur aerua heb orfoóys onadunt, hyt pan deuthant hyt ar vydin yr amheraódyr.

53. A phan welas yr amheraódyr yr aerua oe wyr, bryssyaó a oruc yn borth udunt. Ac yna y gónaethpóyt y Brytanyeit yn veiró; kanys Kynuarch tyóyssaó Trigeri a dóy vil y gyt ac ef a las yna. Ac yna y llas or parth arall trywyr, nyt amgen, Rigyfarch a Bolconi a Laóin o Votlan. A pheí bydynt tywyssogyon teyrnassoed, yr oessoed a delhynt gof hyt vraót ac a enrydedynt eu molyant ac eu clot. Ac eissoes póy bynhac a gyfarffei a Hoóel neu a Góalchmei oc eu gelynyon, ny diagei ae eneit gantaó. A góedy eu dyuot, megys y dywespóyt ucho, hyt ym plith bydin yr amheraódyr, yn damgylchedic oc eu gelynyon y syrthassant y tryóyr hynny. Ac órth hynny Howel a Góalchmei, y rei ny magyssit yn yr oessoed kyn noc óynt neb well noc óynt, pan welsant yr aerua oc eu kedymdeithon, yn óychyr y kyrchassant hónt ac yman, vn o bop parth yn gyffredin yn dyóalhau ac yn blinaó bydin yr amheraódyr, ac megys llucheit yn llad a gyfarffei ac óynt, ac yn annoc eu kedymdeithon; a Góal[ch]mei yn damunaó oe hoóll dihewyt ymgaffel a Les amheraódyr y gymell arnaó peth a digonei ym milóryaeth. Ac nyt oed haóð barnu póy oreu, ae Hoóel ae Góalchmei.

54. Ac odyna Góalchmei a gafas y damunedic hynt. Ac yn óychyr kyrchu yr amheraódyr a oruc, a gossot arnaó. Ac eissoes Les, megys yd oed yn dechreu

blodeuað dewred y ieuencitit ac yn vaðr y ynni, nyt oed well dim gantað ynteu noc ymgaffel ar ryð uarchaðc clotuaðr hðnnð, yr hðnn a gymellei y wybot beth vei y angerd ae deðred. Ac ðrth hynny diruaðr leðenyd a 5 gymerth yndað ðrth ymgaffel ohonað a gðr kynglotuorussset a Gðalchmei. Ac ymerbynyeit yn galet a ðnaeth pob vn ae gilid, megys na ðelat rðg deu vilðr ymlad a gyffelypit y hðnnð. A phan yttoedynt ðy yn neðidyað kaledyon dyrnodeu, a phob vn yn llafuryað agheu y 10 gilyd, nachaf y Rufeinwyr ynn ympentyryað yn eu kylch, hyt pan vu reit y Walchmei a Howel ac eu bydinoed enkilyað hyt ar vydin Arthur, gan eu llad or Rufeinwyr yn drut.

